# IONA ROBERTS ac Eisteddfod Frenhinol Ynys Enlli

# Mynd tros ben llestri ar dir a môr

CHWILIO yr oeddwn am hanes lansio llong un o'm hynafiaid yn yr Herald Cymraeg am 1873, yn yr Archifdy yng Nghaernarfon pan syrthiodd fy llygad ar bennawd mewn llythrennau bras – EISTEDDFOD FRENHINOL YNYS ENLLI. A gwelais mai rhaglen a manylion am yr eisteddfod uchod oedd yn cael eu cofnodi. Ac wele'r manylion;

**Gorsedd Arthur a Chadair Cantref y Gwaelod**

Cynhelir yr wyl fawreddog hon dydd Llun nesaf Mehefin 30. Cychwyna yr agerlong ysblenydd a chyflym Prince Frederick William o Gaernarfon yn ebrwydd wedi dyfodiad y trens o gyfeiriad Afonwen a Llanberis i'r orsaf, sef wyth o'r gloch y boreu. Rhaglen o'r gweithgareddau:-

Y cyfarfod cyntaf i'w gynal ar fwrdd yr agerlong i ddechrau ar gyfer Dinas Dinlle. Llywydd – Owain Parry Ysw. Arweinydd – Clwydfardd.

1. Ymdaith Gwyr Harlech.
2. Anerchiad gan y Llywydd.
3. Anerchiadau gan y Beirdd.
4. Cystadleuaeth Gorawl – "Ar Don o Flaen y Gwyntoedd." Gwobr – Y gorau – tri gini, ailorau – dau gini.
5. Araeth ar Glefyd y Môr.
6. Beirniadaeth ar englynion i'r Prince Frederick William.
7. Can gan Mynyddog – "I lawr a Dic Sion Dafydd."
8. Beirniadaeth ar y moddion gorau i wella Marchnad Caernarfon.
9. Beirniadaeth ar y cywydd i "Frenhines Enlli".
10. Can gan Eos Gwynedd.
11. Beirniadaeth ar y traethodau ar "Cynydd Diweddar ar Amaethyddiaeth Môn ac Arfon".
12. Cystadleuaeth ar y datganiad "Pen Pastwn".

Yr ail gyfarfod ar adfail Ynys Enlli. Llywydd – O Gethin Jones, Ysw. Arweinydd – Bodran. Agorir Gorsedd Arthur gan y beridd wrth sain corn gwlad a chyda holl rwysg henafol deifion barddas.

1. Tôn – "Ymdaith y Mwnc" gan Eryr Eryri.
2. Anerchiad y Llywydd.
3. Anerchiadau gan y beirdd heb fod dros ugain mewn nifer heblaw O Williams Waenfawr.
4. Beirniadaeth ar englynion i "Bopty Newydd Undeb Caernarfon".
5. Can gan Eos Eryri.
6. Beirniadaeth ar farwnad i Frenin Enlli.
7. Cystadleuaeth "Molawd Cymru".
8. Beirniadaeth ar englynion i Cantref y Gwaelod.
9. Beirniadaeth ar "Y Rhamant".
10. Can gan Mynyddog.
11. Beirniadaeth ar y traethawd "Pa un ai i Sir Benfro ai i Sir Gaernarfon y perthyn Ynys Enlli?"
12. Beirniadaeth ar englynion i "Cynyrchion Gregynol Ynys Enlli".
13. Can gan Eos Gwynedd.
14. Beirniadaeth ar destun y Gadair – Arweinir y bardd buddugol i Gadair Frenhinol Enlli.
15. Y casgliad gorau o'r llysiau meddyginiaethol sy'n tyfu ar yr Ynys.
16. Traethawd – "Y Ffordd i Wella Ffyrdd Plwyf Aberdaron".
17. Cystadleuaeth rhwng brodorion Aberdaron a'r cyffiniau ar gan Gymreig boblogaidd.
18. Beirniadeuthau cystadleuthau cyfyngedig i Enlli.
19. Can a chydgan – "Hen Wlad fy Nhadau".

Y trydydd cyfarfod ar y daith ddychweladol. Llywydd – J Ceiriog Hughes. Arweinydd – Mynyddog.

1. Tôn gan y cor buddugol.
2. Anerchiad y Llywydd.
3. Anerchiadau'r Beirdd.
4. Beirniadaeth yr Arwrgerdd.
5. Can gan Mynyddog.
6. Beirniadaeth ar y traethawd "Dylanwad Celfyddyd ar Fasnach".
7. Can gan Eryr Eryri.
8. Beirniadaeth ar y Welsh Tweeds.
9. Areithio byrfyfyr.
10. Can gan Eos Eryri.
11. Beirniadaeth y gan serch.
12. Anthem Genedlaethol.

Coronir Brenin Newydd Enlli yn ystod y dydd, a cheir areithiau gan Ceiriog, Clwydfardd, Mynyddog, Hu Gadarn ac enwogion eraill.

* * *

YN yr adroddiad ar Eisteddfod gyntaf Enlli nodir fod llawer o bobl ar borthladd Caernarfon fore Llun, a'r Prince Frederick William yn edrych yn farddonol ac eisteddfodol wedi ei gwisgo â llumanau amryliw. 'Roedd Seindorf Bres Cartreflu Caernarfon yn canlyn y Pwyllgor trwy'r dref i lawr i'r agerlong a llawer wedi dod o Lanberis, Afonwen a Bangor hefo'r tren, ac eraill yn ymuno yng Nghlynnog a Llanaelhaearn. Bore cymylog ydoedd a phawb yn amheus o'r tywydd ond cododd yn braf iawn.

'Roedd yno lawer o feirdd a llenorion a'r hen batriarch o'r Waenfawr, Owen Williams yn eu plith. Dechreuwyd yr eisteddfod gyferbyn â Dinas Dinlle gyda Hu Gadarn yn llywydd a Chlwydfardd yn arwain. Cyhoeddodd Hu Gadarn mai hon oedd yr eisteddfod gyntaf ar y lli. Bu chwerthin mawr pan ddywedodd ei bod yn cael ei chynnal dan nawdd Nefydd Naf Neifion ac ar wyneb Dafydd Jones!

*Yn y gystadleuaeth i'r côr ar y darn "Ar don o flaen y gwyntoedd" dywedid fod dau barti ac un côr yn cystadlu ond iddynt rhywsut anghofio y darn gosod ac iddynt ganu rhywbeth a ddaeth i'r meddwl. Côr yr Herald oedd yr enillwyr wedi canu Hen Wlad fy Nhadau dan arweiniad Eos Enlli (John G. Jones) ac yna fe gyhoeddwyd fod y wobr wedi mynd ar goll! Darllenodd Edeyrn ei feirniadaeth ar y cywydd i Frenhines Enlli a chyhoeddodd Prydeiniwr yn orau, ond ni ddaeth neb ymlaen i dderbyn y wobr.*

Yn ystod yr ail gyfarfod ar dir Enlli agorwyd yr Orsedd gyda sain y Corn Gwlad ac offrymwyd gweddi gan Alvardd. Cyflwynodd Clwydfardd urddau i lawer a cheir rhestr hir o'u henwau. Cafodd "Pobydd", sef Ioan Arfon flwch sinsin gwerthfawr am benillion i "Bopty Newydd Undeb Caernarfon" a "Gylfinir" sef Griffith Davies, Penllech, Bryncroes oedd yn orau am farwnad i Frenin Enlli.

Wrth roi ei feirniadaeth ar y datganiad "Molawd Cymru" gan Talhaiarn, dywedodd Mynyddog fod llais y cystadleuydd cyntaf a ganodd fel cynffon buwch yn tyfu at i lawr, a bod yr ail heb ganu ar ei destun. Y buddugol oedd Myfanwy o'r Glyn, sef Miss Williams o Glynnog.

Y gystadleuaeth i frodorion Enlli oedd "Y ceffyl gorau a'r par gorau o sanau i Gapten y llong". Awdl neu bryddest i Abaty Enlli oedd testun y Gadair ac Alavon oedd y buddugol. Arweiniwyd ef i Gadair Cantref y Gwaelod gan Clwydfardd ac Alvardd a chadeiriwyd ef gan Owain Gwyrfai, Ioan Arfon a Hu Gadarn o Glynnog.

Cystadleuaeth boblogaidd iawn oedd honno i wisgedydd y Wisg Gymreig orau. Yn gydradd 'roedd Mr Lloyd y Prince of Wales Hotel a Mr Hughes (Alvardd). Brethyn wedi ei wneud gan frethynwyr o'r Drenewydd, ei werthu gan Morris & Jones, Liver Establishment, Caernarfon a'i wnio gan Mrs Hammond oedd gan Mr Lloyd, a daeth brethyn Mr Hughes o ffatri enwog John Morgan a'i Feibion, Cadnant. Gwerthwyd hwn hefyd gan Morris & Jones a chafodd ei wnio gan William Bassett, Constantine Terrace, Caernarfon.

* * *

DYFARNWYD nifer mawr o wobrau eraill a chymerwyd darlun o'r olygfa ar yr ynys gan Mr Kingsley, Heulebydd, Caernarfon. Dyna ardderchog fuasai gweld y darlun hwnnw! Tybed oes yna un ar gael yn rhywle? Dywedir fod llawer wedi dod yno o Aberdaron, Pwllheli a rhannau eraill o Lyn, ac yn eu plith R. Carreg, Ysw.

Am bump o'r gloch aed yn ôl i'r llong i ddychwelyd i Gaernarfon ac yn ystod y daith chwaraeodd y Seindorf alawon Cymreig a chafwyd cyngerdd difyr yn ôl yr adroddiad. Areithiwyd yn SAESNEG gan Bodran, a Chlwydfardd oedd yn beirniadu penillion Saesneg i Bontydd Menai gyda Rhisiart Arfon yn enillydd. Cafodd lyfr gwerth 8/6 yn wobr a W. Evans, Swyddfa'r Herald 5/- am fod yn ail.

Ni cheir enw gohebydd ar derfyn yr adroddiad yma ond ceir llythyr yn yr un rhifyn yn adrodd ychydig mwy o'r hanes, a barn arall ar y digwyddiadau. Dyma fel mae'n dechrau. "Awgrymir fod yr Eisteddfod hon wedi bwriadu bod yn fath o sbri farddol, nad oedd yn ddim ond cyfle i gael bwyta, yfed a meddwi!" Ychwanegir i glefyd y môr ymosod ar lu.

Dywed yr adroddiad iddynt ymgasglu at yr Abaty ar Enlli erbyn dau y prynhawn a chael cwrdd diddorol a threfnus. Cafwyd te gan y brodorion ac yna 'marchio' tua'r lan i fynd adref. Dywed fod llawer iawn o dwmpathau wermod lwyd yno a chariwyd llawer ohono gartref.

Y daith ar y ffordd adref oedd y fwyaf doniol gan iddynt ganu, adrodd ac areithio ac Alvardd wedi cael ei liw yn ôl a Clwydfardd wedi gollwng llinynau ei dafod ac Ioan Arfon wedi rhoi'r gorau i gymryd 'snuff'.

Mae'n amlwg nad oedd Ceiriog wedi gallu bod yn bresennol gan nad oes sôn amdano yn yr adroddiadau o gwbl.